| | |
|---|---|
| Enw'r Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Gofal |
| Teitl yr Eitem | Rhaglen Trawsnewid Cymru Iachach (Plant) |
| Dyddiad y Cyfarfod | 30 Ionawr 2020 |
| Aelod Cabinet Perthnasol | Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| Pwrpas | Rhoi diweddariad i **aelodau ar gynnydd gweithredu Rhaglen Trawsnewid *Cymru Iachach* (Plant) yn Ngwynedd.** |
| Awdur | Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teulu |

**1. <u>Cefndir</u>**

1.1 *Cymru Iachach* yw Cynllun Hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a'u hymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyhoeddwyd Cymru Iachach ym mis Mehefin 2018. https://llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol

1.2 Mae *Cymru Iachach* yn nodi gweledigaeth o ddull system gyfan yn y dyfodol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gyda mwy o bwyslais ar atal a llesiant, defnyddio modelau newydd o wasanaethau lleol di-dor sydd wedi'u cynllunio a'u cydgysylltu ar sail anghenion pobl.

1.3 Yn gysylltiedig â'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol mae yna gynllun gweithredu tymor byr sydd wedi'i drefnu ar ffurf rhaglen drawsnewid genedlaethol ac wedi ei gefnogi gan Gronfa Drawsnewid.

1.4 Nod y Gronfa Trawsnewid yw sbarduno datblygu modelau newydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

1.5 Lluniodd Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ei ymateb i *Cymru Iachach* gan sicrhau adnoddau o'r Gronfa Trawsnewid ar gyfer 4 maes gwaith. Un o'r meysydd hynny yw **Trawsnewid Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc**

**2. <u>Rhaglen Trawsnewid Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc</u>**

2.1 Nod y rhaglen yw:

- Helpu i atal problemau rhag dwysáu drwy gynnig cymorth integredig prydlon – gan gynnwys dulliau newydd i gael help yn gynnar a chael cymorth therapiwtig.
- Sefydlu timau 'asesu a chymorth' sy'n darparu cymorth ymatebol, dwys sy'n meithrin cadernid yr unigolyn a'r teulu. Bydd hyn yn atal sefyllfaoedd cymhleth ac argyfyngus rhag dwysáu ymhellach.
- Cyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gan leihau'r angen am ymyrraeth statudol ddrud a hirdymor.

2.2 Mae i'r Rhaglen 4 ffrwd gwaith sef:

2.2.1 <u>Peilota Model "Amddiffyn Plant yn Effeithiol".</u>
Mae'r Peilot yn weithredol yma yng Ngwynedd ers Ebrill 2019.

Mae'r Prosiect yn ceisio sicrhau fod ymarfer amddiffyn plant yn effeithiol. Gwneir hyn trwy roi sylw i 4 conglfaen ar gyfer ymarfer effeithiol ym maes amddiffyn plant. Mae rhain yn cynnwys yr elfennau isod.

- Sicrhau fod ein sgyrsiau gyda teuluoedd yn gydweithiol yn hytrach nag yn arwain at wrthdaro
- Sicrhau fod ein penderfyniadau ar ymyrryd yn statudol o ansawdd uchel
- Sicrhau fod unrhyw newid sydd ei angen i gadw plentyn yn ddiogel yn glir a dealladwy i'r teulu
- Sicrhau fod modd mesur unrhyw gynnydd tuag at newid o'r fath

Penodwyd mentor ymarfer ar gyfer y prosiect. Ddechreuodd y peilot yn ardal Meirionnydd-Dwyfor yn Mai 2019. Mae prosiect wedi cynnwys hyd yma hyfforddiant i staff, sesiynau mentora unigol ac mewn grwp a newid yn y ffordd mae cynadleddau amddiffyn yn cael eu cynnal. Mae teclynnau ac arddulliau ymarfer newydd ar waith ac mae'r prosiect eisoes yn dysgu o brofiadau rhanbarth cyntaf y peilot. Mae rhanbarthau eraill y gogledd yn awyddus gweld a fydd y prosiect yn llwyddo i arwain i greu model newydd, ymarferol o ymarfer fwy effeithiol wrth amddiffyn plant rhag niwed.

### 2.2.2 Tîm Aml-ddisgyblaethol Cymorth Dwys

Nod y prosiect yw sefydlu Tîm Aml-ddisgyblaethol ar draws Gwynedd a Môn i weithio gyda carfan fechan o deuluoedd i gael gwell canlyniadau iddynt.

Mae'r teuluoedd a fydd yn derbyn cefnogaeth eisoes yn cael eu cefnogi gan Weithiwr Cymdeithasol ac wedi eu hadnabod fel teuluoedd fyddai'n elwa o ymyrraeth ddwys oherwydd anghenion cymhleth.

Bydd y Tîm yn tynnu ynghyd disgyblaethau iechyd, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol plant, a gofal cymdeithasol oedolion ynghyd i becynnu arbenigeddau ac ymyraethau i'r teuluoedd.

Mae'r ffrwd gwaith yn cyfarch yr agenda trawsnewid gan ein bod yn tynnu arbenigeddau a gwasanaethau ynghyd yn un tîm, yn hytrach na'r sefyllfa bresennol o gyfeirio teuluoedd at arbenigedd rhwng gwasanaethau.

Mae Cyngor Môn yn arwain ar ran y 2 si, ac mae'r broses o recriwtio'r tîm ar waith ar hyn o bryd.

### 2.2.3 Hwb Cymorth Cynnar

Parhau i ddatblygu ein Hwb Cymorth Cynnar sydd eisoes wedi tynnu ynghyd Tîm Derbyn Gwasanaeth Cymdeithasol Plant, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Mae'r Hwb presennol yn defnyddio un drefn derbyn, asesu a cyfeirio ac yn adwy ar gyfer gwybodaeth, cymorth gynnar, gwasanaethau ataliol i deuluoedd, cymorth, gofal a diogelu.

Mae'r ffrwd gwaith yn edrych ar ychwanegu arbenigedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol oedolion i'r Hwb er mwyn deall, cynghori ac ymateb i anghenion rhieni oddi

fewn i'r teulu, ochr yn ochr a'r arbenigeddau presennol sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn.

2.2.4 Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl Plant a Pobl Ifanc.
Arweinir y ffrwd gwaith hwn gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Mae Rheolwr Prosiect newydd ei benodi ac mae cyfarfod cyntaf o'r Grŵp Llywio wedi ei drefnu ar gyfer diwedd Ionawr.

2.3 Mae'r Ffrydiau Gwaith yn datblygu ar amserlenni gwahanol.

**3. Llywodraethiant.**

3.1 Mae'r Ffrydiau Gwaith, a gefnogir gan Reolwr Prosiect dynodedig yn adrodd i'r Grŵp Trawsnewid Plant a Pobl Ifanc Gogledd Cymru.

3.2 Mae rhan ddeiliaid lleol i'r rhaglen yng Ngwynedd a Môn yn cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu'r ffrydiau gwaith, darparu trosolwg a sicrhau cysylltiadau strategol drwy Grŵp Trawsnewid y Gorllewin, sy'n gweithredu fel is-grŵp i'r grŵp rhanbarthol a nodir uchod.